# Y CYNGOR 12/5/11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R Leonard Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Seimon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu), Tony Bate (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg), Guto Rhys (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol a Datblygu'r Gyfundrefn), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Dafydd Gibbard (Rheolwr Eiddo Corfforaethol), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio) ac Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr J Endaf Cooke, E Selwyn Griffiths, Dai Rees Jones, Richard Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Sïon Selwyn Roberts a Guto Rhys Tomos.

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd John Wynn Jones.

Dilynwyd y weddi gydag anerchiad gan y Cynghorydd W Tudor Owen, Cadeirydd 2010/11.

## 2 CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd John Gwilym Jones yn gadeirydd am 2011/2012.

Llofnododd y Cynghorydd John Gwilym Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2011/12.

## 3 IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd R Leonard Jones yn is-gadeirydd am 2011/12

Llofnododd y Cynghorydd R Leonard Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2011/12.

## 4 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011 fel rhai cywir.

## 5 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitem "Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Berwyn".

Eglurwyd y byddai angen i bawb oedd yn llywodraethwr ar ysgol a effeithir gan y cynigion, ddatgan eu buddiant ar gychwyn y cyfarfod, ond, dan y Cod Ymddygiad, roedd gan bob aelod, oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar gorff llywodraethu ysgolion cynradd, hawl i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

O safbwynt aelodau oedd â pherthynas yn ddisgybl neu staff mewn ysgol yn y dalgylch, eglurwyd y byddai gan aelod fuddiant personol os oedd penderfyniad ar y mater yn debyg o effeithio lles neu sefyllfa ariannol person yr oedd ganddynt gysylltiad agos ag ef/hi. Byddai'r buddiant hwnnw'n rhwystro aelod rhag cymryd rhan yn y drafodaeth, os byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd gredu ei fod mor arwyddocaol fel y byddai'n rhagfarnu barn yr aelod.

Eglurwyd bod Pwyllgor Safonau'r Cyngor o'r farn bod perthynas rhiant, taid/nain, ŵyr/wyres, gwr/gwraig, plentyn, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol. Caniatawyd gollyngiad gan y pwyllgor i nifer o aelodau oedd â pherthnasau yn y categori yma i gymryd rhan a phleidleisio yn y drafodaeth gyffredinol, ond nid ar yr ysgol benodol yr oedd ganddynt gysylltiad â hi.

Nodwyd y bwriedir ymdrin â'r argymhellion ar wahân er galluogi aelodau oedd â buddiant mewn un ysgol yn unig, gymryd rhan yn y drafodaeth ar yr argymhellion eraill.

(i) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion y Berwyn", oherwydd y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Elwyn Edwards oherwydd bod wyrion ac wyres iddo yn mynychu Ysgol Bro Tegid, Y Bala;
- Y Cynghorydd Dylan Edwards oherwydd cysylltiad teuluol ag ysgolion tref y Bala;
- Y Cynghorydd Pat Larsen oherwydd bod perthynas teuluol (trwy briodas) â phrif athrawes Ysgol y Parc;
- Y Cynghorydd T G Ellis oherwydd bod wyresau iddo yn mynychu Ysgol Bro Tegid, Y Bala
- Y Cynghorydd John Pughe Roberts oherwydd bod ei ferch yn mynychu Ysgol Bro Tegid y Bala

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr ysgol(ion) dan sylw.

(iii) Datganodd y Cynghorydd Alan Jones Evans fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion y Berwyn", oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Parc.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(iv) Datganodd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones ei fod yn datgan buddiant yn yr eitem "Penodi Aelod ar y Pwyllgor Safonau" oherwydd bod ganddo gysylltiad â'r pwyllgor.

Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem dan sylw.

## 6 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(i) Cydymdeimlwyd â theulu'r Cynghorydd J R Jones a fu farw'n sydyn ddiwedd mis Mawrth.

Talwyd teyrnged iddo gan ei gyfaill y Cynghorydd Keith Greenly-Jones, a'r Cynghorydd Stephen Churchman, Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

Cydymdeimlwyd â'r Cyng. Alan Jones Evans ar golli ei fam yn ddiweddar.

Yna, cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a gwahoddwyd y cyfarfod i sefyll fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ii) Anfonwyd dymuniadau gorau at y Cynghorydd Dai Rees Jones oedd yn yr ysbyty yn dilyn trawiad ar y galon, a'r Cynghorydd Eryl Jones Williams oedd hefyd yn yr ysbyty oherwydd problemau calon.

(iii) Croesawyd y Cynghorydd Linda Morgan yn ôl i'r Cyngor yn dilyn cyfnod o anhwylder.

(vi) Llongyfarchwyd Fflam, sef tim "Formula 1 Mewn Ysgolion" o Ysgol Botwnnog fydd yn cystadlu yn rownd derfynol ryngwladol y gystadleuaeth ym mis Medi. Daeth Fflam yn gyntaf o dimau Gogledd Cymru, ac yn ail drwy Brydain yn y rownd derfynol Genedlaethol (UK) yn Llundain. Maent wedi ennill lle i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth y Byd ym Malaysia a Singapore, a dymunwyd pob llwyddiant iddynt.

Hefyd llongyfarchwyd tîm Dan 14 oed o Ysgol Syr Hugh Owen sy'n bencampwyr cyfredol Eryri a Gwynedd, ac wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol yng nghwpan Cymru. Eglurwyd bod y ddau dîm o'r ysgol a gyrhaeddodd y rownd derfynol wedi eu gwahodd i gynrychioli Cymru mewn twrnament sy'n cynnwys gweddill gwledydd Prydain. Cynhelir y gystadleuaeth hon ym Mhontypridd, a dymunwyd pob llwyddiant iddynt.

Llongyfarchwyd tîm Pêl-droed Dinas Bangor ar ennill pencampwriaeth cynghrair Cymru unwaith eto.

(v) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15(1) derbyniodd y Cadeirydd ddeiseb gan y Cynghorydd Ioan Thomas, aelod Menai, Caernarfon.

Adroddodd yr aelod bod y ddeiseb wedi ei harwyddo gan drigolion oedd yn anhapus gyda chyflwr ffordd Yr Hwylfa, Lon Ysgubor Wen, Caernarfon ac yn gofyn i'r Cyngor cyflawni gwaith cynnal a chadw er mwyn gwella'r ffordd fel ei bod yn addas i bwrpas.

## 7 AD-DREFNU YSGOLION YN NALGYLCH Y BERWYN

(a) Cyflwynwyd adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i ad-drefnu ysgolion dalgylch y Bala, yn dilyn ymgynghoriad statudol.

(b) Croesawyd y cyhoedd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, ac eglurwyd y bwriedir trafod Ysgol y Parc yn gyntaf, ac yna gweddill y cynigion.

(c) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, er mwyn gosod cyd-destun ar gyfer y drafodaeth ar y cynigion.

Manylwyd ar y rhesymau dros ad-drefnu ysgolion cynradd y sir, yr hyn oedd wedi'i gyflawni hyd yn hyn, ynghyd â'r prif faterion oedd yn creu pryder wrth gynllunio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd.

Pwysleisiwyd bod angen gweithredu'r Strategaeth ad-drefnu ar fyrder ar draws Gwynedd, cynnig modelau sefydlog/hirdymor ar gyfer dalgylchoedd, ynghyd â chadw llygad ar y darlun Sirol a phrofiadau holl blant y sir.

(ch) Cafwyd cyflwyniad byr gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts, Arweinydd Portffolio Addysg.

Eglurwyd bod sefyllfa gyllidebol ddyrys yn wynebu ysgolion mawr a chanolig y sir. Cyfeiriwyd yn benodol at sefyllfa Ysgol yr Hendre Caernarfon, Ysgol Llanrug ac Ysgol Cymerau, Pwllheli oedd wynebu toriadau sylweddol, er bod twf yn nifer y plant.

Pwysleisiwyd bod y cynigion oedd gerbron yn bell gyrhaeddol i blant y dalgylch, ac yn gam allweddol tuag at ddatrys problemau ysgolion Gwynedd gyfan.

Eglurwyd bod y model yn cyd-fynd â barn Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Gwynedd, sef bod ysgolion gyda llai nag 20 o ddisgyblion yn anghynaladwy, bod y broses ad-drefnu yn hirfaith a beichus, a bod angen symud yn ddi-oed i ad-drefnu ysgolion y sir.

Nodwyd ymhellach, bod 162 o blant yn mynychu'r pedair ysgol wledig ym Mhenllyn, a'i bod yn sicr y byddai llawer sir arall yn canoli'r holl blant mewn un ysgol fawr yn nhref y Bala. Yn hytrach, roedd y cynigion yn diogelu addysg wledig gyda rhwydwaith o ysgolion o amgylch tref y Bala, ac yn rhoi dyfodol hyderus i ysgolion, penaethiaid ac athrawon. Eglurwyd hefyd bod yr Ysgol Gydol Oes yn y Bala yn diogelu a chryfhau addysg uwchradd leol i blant y cylch.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig i gau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 20112, gan ddarparu lleoedd i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn, ar ôl cwblhau gwaith uwchraddio ar Ysgol O M Edwards, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 I'r perwyl hwnnw.

(d) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant gan aelod Llandderfel i beidio cau Ysgol y Parc, ac i'r ysgol gydweithio gydag Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn a'r Berwyn, neu fod yn rhan o drefniadau ffederal yn yr ardal.

Adroddwyd gan yr aelod ei fod wedi derbyn 48 o lythyrau yn ystod y deuddydd diwethaf, yn dadlau dros gadw Ysgol y Parc yn agored ac yn pwyso ar y Cyngor i beidio â chau'r ysgol. Hefyd, roedd rhai unigolion yn pwyso ar y Cyngor i fod yn oleuedig a blaengar a sefydlu trefniadau ffederal ar gyfer yr ardal. Darllenodd ddetholid o'r llythyrau

(dd) Nodwyd gan aelod Y Bala nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros gau Ysgol y Parc. Pwysleisiodd mai bychan fyddai'r arbediad ariannol o gau'r ysgol, a bod yr arbediad yn anghymesur a'r difrod i'r gymuned.

Roedd sawl aelod arall yn cytuno mai pitw fyddai'r arbediad a'i fod yn anghymesur.

Cyfeiriwyd at nifer o ddogfennau oedd yn cryfhau'r ddadl dros gadw'r ysgol ar agor.

Nodwyd bod adroddiadau ardrawiad iaith a chymuned a gomisiynwyd gan y Cyngor yn syrthio o blaid cadw'r ysgol yn agored, a bod Cynllun Tair Blynedd y Cyngor yn nodi pwysigrwydd cynnal ardaloedd gwledig. Roedd adroddiad Bwrdd yr Iaith, sy'n dadansoddi sefyllfa bresennol y Gymraeg yn y Bala, yn nodi bod cau ysgolion gwledig yn fygythiad i'r iaith, ac adroddiad diweddaraf ESTYN yn nodi bod yr ardal yn un o gadarnleoedd iaith a diwylliant Cymraeg, a bod safon addysg yr ysgol yn uchel.

Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd cyfraniadau adeiladol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, deisebau a llythyrau lu.

Diolchodd am y gefnogaeth leol a chenedlaethol i gadw Ysgol y Parc yn agored.

Wrth gloi, adroddwyd gan yr aelod bod amryfusedd ynglŷn â'r cynnig gwreiddiol, a'i fod yn bryderus ynglŷn â'r trefniadau os fydd yr ysgol yn cau ddiwedd Awst 2012, heb fod adnoddau digonol ar gyfer cwblhau'r gwaith ar Ysgol O M Edwards.

Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bydd y plant yn symud i Ysgol O M Edwards ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

(e) Cyfeiriwyd gan aelod arall at ddogfen o eiddo'r Cyngor "Byw yng Ngwynedd" oedd yn amlinellu problemau byw yng nghefn gwlad ac yn cynnig datrysiad iddynt. Mynegodd bryder na ystyriwyd y ddogfen wrth ad-drefnu ysgolion y dalgylch.

Adroddwyd ymhellach ei fod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a bod polisi'r Awdurdod yn nodi bod ysgolion yn allweddol i gymunedau, a'u bod yn cefnogi cadw ysgolion llewyrchus yn agored pan oedd hynny'n bosibl. Pwysleisiodd yr aelod nad oedd cyfiawnhad dros gau Ysgol y Parc.

Wrth gloi, cyfeiriwyd at gyfraniad aruthrol nifer o aelodau'r Cyngor i fywyd y genedl dros flynyddoedd lawer. Nododd y byddai eu cyfraniad yn mynd yn angof a diwerth os fyddant yn pleidleisio i gau Ysgol y Parc. Cyfeiriodd at drais yn erbyn cenedl yn Llanwddyn, Tryweryn a Phenyberth, a nododd bod cau ysgol y Parc yn yr un llinach. Pwysodd ar yr aelodau i ystyried arwyddocâd y cynnig oedd gerbron.

(f) Adroddwyd gan aelod Llanuwchllyn ei fod wedi rhoi sylw manwl i'r dadleuon, a chan fod ganddo ffydd yn y gyfundrefn addysg, credai na fyddai cau Ysgol y Parc yn cael effaith negyddol ar addysg y plant. Fodd bynnag, nododd bod ganddo bryderon eraill ynglŷn â chau'r ysgol.

Eglurwyd ei fod yn bryderus y bydd gweithgareddau ar ôl ysgol yn dod i ben gyda'r plant yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd oherwydd anghyfleustra.

Ymhellach, nodwyd nad oedd cytundeb y byddai holl blant y Parc yn mynychu Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn. Eglurodd bod tref y Bala yn agosach i nifer o gartrefi dalgylch y Parc, ac y byddai gyrru'r plant i'r Bala yn hytrach na Llanuwchllyn yn hwylusach i sawl teulu. Mynegwyd pryder y bydd gwasgaru'r plant rhwng Llanuwchllyn a'r Bala yn arwain at golli hunaniaeth, ac yn ffactor niweidiol i ddyfodol diwylliannol y Parc.

Nodwyd fod cylch meithrin ffyniannus yn bwydo Ysgol y Parc ac Ysgol Bro Tryweryn ar hyn o bryd, ac y byddai cau'r ysgol yn bygwth dyfodol y cylch a chyflogaeth tair gweinyddes.

Ychwanegodd bod rhwyg amlwg rhwng gwlad a thref a rhwng ysgolion bach ac ysgolion mwy a bod cadernid Gwynedd dan fygythiad.

(ff) Nodwyd gan aelod arall bod y dadleuon oedd gerbron yn crisialu'r hyn oedd yn digwydd trwy Feirionnydd, a'i bod yn pryderu y bydd yn arwain at gau llawer ysgol a dinistrio llawer cymuned.

(g) Eglurwyd gan eraill iddynt brofi tristwch a dinistr cau Ysgol Rhydyclafdy mewn blynyddoedd diweddar.

(ng) Mynegwyd pryder gan sawl aelod bod y Cyngor wedi anwybyddu sylwadau'r ymgynghori, y deisebau a'r llythyrau ac nad oedd yn gwrando llais y gymuned leol.

(h) Nodwyd gan sawl aelod eu bod yn herio'r syniad bod cau ysgol yn lladd cymuned a chyfeiriwyd at nifer o gymunedau ffyniannus lle roedd yr ysgol wedi cau ers blynyddoedd.

(i) Adroddwyd gan aelod Gerlan bod ysgol y pentref wedi cau ers blynyddoedd lawer ond bod yno gymuned fyw ffyniannus.

Eglurwyd bod ymgyrch trigolion y Parc i gadw'r ysgol yn agored yn dystiolaeth bod yno gymuned fyw lle mae pobl yn fodlon dod at ei gilydd. Roedd yn ffyddiog y bydd y gymuned yn ffynnu boed yno ysgol neu beidio

Pwysleisiwyd bod y Cyngor wedi comisiynu adroddiad ardrawiad iaith oherwydd ei fod yn pryderu ynglŷn â sefyllfa'r iaith. Roedd yr adroddiad yn nodi'n glir y bydd y trefniadau arfaethedig yn cryfhau'r Gymraeg, ac yn gwella'r cyfleoedd ieithyddol yn y dosbarth ac ar y buarth.

Cyfeiriwyd ymhellach at anghyfartaledd y sefyllfa gyda thraean o ysgolion y sir yn cael gwarchodaeth rhag toriadau, tra bo gweddill yr ysgolion yn dioddef toriadau enbyd, a bod y sefyllfa'n niweidiol i addysg plant y sir. Ar sail cydraddoldeb pwysodd ar aelodau i gefnogi'r cynnig gwreiddiol.

Pwysleisiodd bod llawer o'r ysgolion canolig a mwy eu maint mewn cymunedau Cymraeg yn ogystal.

(l) Diolchodd yr Arweinydd i aelodau lleol ardal Penllyn am eu gwaith clodwiw dros eu cymuned. Talwyd teyrnged arbennig i'r Cynghorydd Elwyn Edwards oedd wedi bod yn gyson ei farn ac wedi gweithredu'n effeithiol, mewn modd urddasol a bonheddig.

Diolchodd hefyd i'r Arweinydd Addysg am ei gwaith diflino i symud yr agenda ymlaen, er budd plant a phobl ifanc Gwynedd.

Atgoffwyd yr aelodau, bod y Cyngor, wedi penderfynu, yn ddiwrthwynebiad bod y drefn bresennol o ddarparu addysg gynradd yng Ngwynedd yn anghynaladwy ac anaddas i bwrpas. Adroddwyd bod yr holl ddogfennaeth yn nodi bod rhaid ad-drefnu'r gyfundrefn addysg er mwyn sicrhau safon gorau posibl ar gyfer pob plentyn yn y sir.

Nodwyd bod tystiolaeth bod safon addysg Cymru'r isaf trwy wledydd Prydain.

Cyfeiriwyd at safon addysgol uchel y Ffindir. Nodwyd bod y safon i'w briodoli'n bennaf i fuddsoddiad helaeth mewn technoleg gwybodaeth, pontio oed cynradd ac uwchradd a phenodi arweinyddion ysgolion sy'n gyrru'r agenda ymlaen yn lleol. Pwysleisiwyd bod angen i Wynedd gyflawni yn yr un modd trwy ad-drefnu'r gyfundrefn bresennol. Pwysodd ar aelodau i gefnogi'r cynnig gwreiddiol er mwyn sicrhau bod pob plentyn ledled y sir yn cyrraedd ei lawn botensial.

Ychwanegwyd gan Uwch Arweinydd Datblygu bod addysg dda ac economi gref yn mynd llaw yn llaw. Er bod safon addysg yn dda yng nghyd-destun ESTYN, pwysleisiodd nad oedd yn dda yn y cyd-destun rhyngwladol. Roedd o'r farn bod y ffaith bod economi Cymru'n fregus yn effeithio ar safon addysg, a phwysodd ar yr aelodau i symud ymlaen yn greadigol a chefnogi'r cynnig gwreiddiol.

(ll) Cyfeiriodd aelod at adroddiadau diweddar ESTYN. Roedd yr adroddiadau'n nodi bod safon addysg Ysgol y Parc yn dda, tra bod safon addysg Ysgol O M Edwards yn ardderchog. Nododd ei bod yn haws cynnal safon mewn ysgol mwy ei maint, ac felly byddai'r plant fyddai'n trosglwyddo yn siŵr o dderbyn addysg ardderchog.

(m) Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â'r sefyllfa os na fydd yr arian ar gael oddi wrth y Cynulliad, eglurwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y cais am adnoddau wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad yn Rhagfyr 2010, ac y disgwylir cadarnhad ynglŷn â'r sefyllfa erbyn mis Gorffennaf. Os fydd y cais yn cael ei wrthod, eglurwyd y bydd angen i Fwrdd y Cyngor benderfynu os oedd am ariannu'r datblygiad o strategaeth ariannol y Cyngor.

(n) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â defnydd cymunedol o'r adeilad os fydd yr ysgol yn cau, adroddwyd gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol bod trafodaethau eisoes ar y gweill gyda'r gymuned yn y Parc ynglŷn â dyfodol yr adeilad. Eglurwyd bod cynnig ffurfiol wedi ei wneud mewn llythyr gan yr Uned Eiddo yn Chwefror, a bod y cynnig yn cynnwys trosglwyddo perchnogaeth yr holl safle i'r Cyngor Cymuned ac yna ymlaen ar brydles i Bwyllgor Rheoli. Nododd bod y cynnig hefyd yn cynnwys cefnogaeth refeniw parhaol tuag at y costau rhedeg ayb. Nodwyd nad oedd ymateb wedi bod i'r cynnig hyd a hyn. Os fydd penderfyniad o gau'r ysgol eglurwyd y bydd angen ehangu'r trafodaethau yn fwy manwl dro syr wythnos i ddod.

(o) O safbwynt anghenion cludiant ac addasiadau i Ysgol O M Edwards, roedd aelod o'r farn bod yr adroddiad yn wallus am nad oedd yn cynnwys manylion ynglŷn â rhagolygon niferoedd plant i'r dyfodol.

(p) Mewn ymateb i gais am well eglurder, eglurodd y Cyfarwyddwr na fydd lle i blant y Parc yn Ysgol O M Edwards tan fydd yr addasiadau wedi eu cwblhau. Eglurodd bod bwriad gwneud buddsoddiad o £1.3m yn ysgolion y wlad, sef £100,000 yn Ysgol Bro Tryweryn, £250,000 yn Ysgol Ffridd y Llyn a £900,000 yn Ysgol O M Edwards er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bwrpas gyda chyfleusterau addas ar gyfer addysgu'r plant. Pwysleisiodd bod buddsoddiad sylweddol yn digwydd yn yr ysgolion gwledig yn ogystal â'r Campws Gydol Oes yn y Bala.

(r) Nodwyd gan aelod arall ei bod yn cydymdeimlo gyda phobl y Parc ac aelodau Penllyn, ond pwysleisiodd bod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy, oherwydd bod niferodd plant wedi gostwng, bod gormodedd o adeiladau a bod safonau addysg yn syrthio. Roedd yr arbediad yn fychan oherwydd y dymuniad i gynnal y 3 ysgol wledig yn yr ardal. Eglurodd bod y cynllun hefyd yn creu campus Gydol Oes Newydd yn y Bala a bod y datblygiadau'n cynnig gobaith i blant a chymunedau Bala a Phenllyn i'r dyfodol.

(rh) Wrth gloi nodwyd gan Arweinydd Addysg y byddai diystyru'r dystiolaeth a dilyn y galon yn gwneud cam â holl blant y sir.

Eglurwyd bod Ysgol y Parc yn cydweithio gydag Ysgol O M Edwards ar hyn o bryd, ac na fyddai'r gwelliant yn golygu fawr o newid. Ymhellach eglurwyd y byddai ffederaleiddio'n golygu arbediad o £3,000 yn unig, a phwysleisiwyd na fyddai ffederaleiddio'n mynd i afael â llefydd gweigion. Nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru'n feirniadol bod y Cyngor yn gwario £2m yn flynyddol ar lefydd gweigion. Pwysleisiwyd hefyd, na fyddai ffederaleiddio'n lleihau'r anghyfartaledd trawiadol yng ngwariant y pen yn y ddwy ysgol.

Ymhellach mynegodd bryder y byddai cefnogi'r gwelliant yn dangos diffyg ewyllys gwleidyddol i newid, ac y byddai'n peryglu'r cais am arian cyfalaf oddi wrth y Cynulliad. Pwysodd ar aelodau i gefnogi'r cynnig gwreiddiol.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar welliant y Cynghorydd Elwyn Edwards i beidio cau Ysgol y Parc, ac i'r ysgol gydweithio gydag Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn a'r Berwyn, neu fod yn rhan o drefniadau ffederal yn yr ardal.

**O blaid: (26)** Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Eric Merfyn Jones, Linda Wyn Jones, W Penri Jones, Dilwyn Lloyd, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Peter Read, Dafydd W Roberts, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright

**Yn erbyn: (38)** Y Cynghorwyr: E T Dogan, Dyfed Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, Alun Wyn Evans, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, Sylvia Humphreys, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dyfrig Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, R Leonard Jones, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Keith Marshall, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts,Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Paul Thomas, J.W.Williams, a R H Wyn Williams

**Atal pleidlais (0)**

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

Pleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig gwreiddiol i gau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 20112, gan ddarparu lleoedd i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn, ar ôl cwblhau gwaith uwchraddio ar Ysgol O M Edwards, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 I'r perwyl hwnnw.

Yna pleidleisiwyd a phasiwyd gweddill y cynigion.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Er mwyn hwyluso sefydlu'r Campws Dysgu Gydol Oes arfaethedig, cymeradwyo'r bwriad i gau Ysgol y Berwyn, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid ar 31 Awst 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.**

**(ii) Cymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol Gymunedol ar safleoedd Ysgol y Berwyn ac Ysgol Beuno Sant i dderbyn disgyblion o'r amrediad oed 3 -19 fel rhan o sefydlu *Campws Dysgu Gydol Oes newydd yn nhref y Bala* i agor ar 1 Medi 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.**

**(iii) Cymeradwyo'r cynnig i gau *Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012,* gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn Ysgol O. M. Edwards, Llanuwchllyn, ar ôl cwblhau gwaith uwchraddio ar Ysgol O M Edwards a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.**

**(iv) Cyhoeddi'r Rhybuddion Statudol gyfeiriwyd atynt yn (i), (ii) a (iii) uchod pan fydd yr adnoddau cyfalaf priodol wedi eu cadarnhau.**

**12 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i ddyraniad seddau a chadeiryddiaethau/is-gadeiryddiaethau pwyllgorau yn sgil newid yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Adroddwyd gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wedi newid gyda marwolaeth y Cynghorydd J R Jones, a'r Cynghorydd Alan Jones Evans wedi ymuno â Grŵp Plaid Cymru.

Eglurwyd, bod nifer y seddau gan Grŵp Plaid Cymru wedi cynyddu, ond bod arweinyddion y grwpiau gwleidyddol yn ffafrio cadw at y dyrnaid presennol a thrafod y sefyllfa ymhellach ym mis Gorffennaf.

Os oedd y Cyngor hefyd yn ffafrio cadw at y dyraniad presennol, eglurwyd bod angen cefnogaeth unfrydol i'r cynnig gan nad oedd yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Hefyd yn sgil y newidiadau i'r Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol, adroddwyd bod Cadeiryddiaeth Pwyllgor Craffu Amgylchedd yn wag, a bod y Grŵp Busnes wedi cytuno i gyfnewid cadeiryddiaeth ac is-gadeiryddiaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(i) nodi bod Cyfansoddiad presennol y Cyngor fel a ganlyn:-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **37** |
| **Annibynnol** | **16** |
| **Llais Gwynedd** | **13** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **4** |
| **Llafur** | **4** |
| **Sedd Wag** | **1** |

**(ii) peidio newid dyraniad y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor, a chadw seddau'r pwyllgorau Craffu Plant a Phobl Ifanc, Trwyddedu Canolog a Phensiynau yn wag tan fydd canlyniad yr is etholiad yn Ward Arllechwedd yn wybyddus, ac ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 14 Gorffennaf;**

**(ii) bod arweinwyr grwpiau Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn trafod cyfnewid cadeiryddiaeth ac is-gadeiryddiaeth Pwyllgor Craffu Amgylchedd, a pheidio gwneud unrhyw newid pellach i ddyraniad y cadeiryddiaethau/is-gadeiryddiaethau, ac ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod Cyngor Llawn ar 14 Gorffennaf**

**13 ADOLYGIAD O'R DREFN EILYDDIO I BWYLLGORAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i adolygu'r drefn eilyddio i bwyllgorau.

Adroddwyd gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod y Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol ar 13 Mai 2010 wedi sefydlu'r egwyddor o benodi eilyddion ar gyfer pwyllgorau.

Eglurwyd mai sâl fu ymateb y grwpiau gwleidyddol i enwebu eilyddion, a prin fu'r defnydd o eilyddion i bwyllgorau heblaw ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio. Roedd mwyafrif Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a'r Prif Bwyllgor Craffu o'r farn y dylai'r drefn gael ei chyfyngu i'r Pwyllgor Cynllunio yn unig.

**PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadu trefn eilyddio i bwyllgorau sydd yn cael ei chyfyngu i'r Pwyllgor Cynllunio yn unig a bod y drefn yn cael ei weithredu yn syth.**

**(ii) awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau priodol i reol gweithdrefn 30 - Penodi Eilyddion i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau**

**14 PENODIAD I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i ethol un cynghorydd o Gyngor Gwynedd i gymryd lle'r Cynghorydd Stephen Churchman sydd wedi dod yn aelod o Fwrdd y Cyngor.

Adroddwyd y gwahoddwyd holl aelodau'r Cyngor ac eithrio aelodau'r Bwrdd i wasanaethu

ar y Pwyllgor Safonau. Derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb gan 3 aelod, cyfarfu arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i ystyried y ceisiadau a chytunwyd y dylid argymell i'r Cyngor benodi'r Cynghorydd Eryl Jones Williams i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Eryl Jones-Willaims i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am weddill tymor y Cyngor hwn.**

**15 CYNLLUN TAIR BLYNEDD Y CYNGOR**

(i) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella, a'r Cynllun Tair Blynedd i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

(ii) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Tanlinellwyd pwysigrwydd y Cynllun oedd yn crisialu dyheadau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol a nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod y gweithredu'n digwydd.

Eglurwyd bod rhai meysydd lle mae cais wedi ei wneud i fyrddau rhaglen fod yn fwy uchelgeisiol. Gofynnwyd i'r Rhaglen Adfywio ac Economi, gynnwys Prosiect "Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifainc" lle mae'r Bwrdd Economi ac Adfywio yn edrych ar ymestyn y cynllun a sefydlu mwy o brentisiaethau yn y sector gyhoeddus ar ben yr hyn a nodir yn y ddogfen.

Hefyd, yn sgil Adolygiad Simpson sy'n adolygu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, eglurwyd bod angen ychwanegu un prosiect newydd i faes y Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio, o dan y pennawd "Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus". Nodwyd y bydd y prosiect yn edrych ar y symudiadau i adolygu a rhesymoli gwasanaethau cyhoeddus a hefyd effaith tebygol yr Agenda Cydweithio ar Wynedd.

(iii) Mynegwyd pryder gan aelod bod llawer o gyfrifoldebau aelodau yn cael eu dirprwyo yma ac acw a'i fod yn anfodlon dirprwyo hawl i'r ddogfen gael ei newid gan swyddogion ar ôl i'r Cyngor ei chymeradwyo.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai newidiadau golygyddol yn unig oedd dan sylw, ac nad oedd yn fwriad cyflawni newidiadau sylweddol i'r ddogfen.

Mynegwyd pryder pellach bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar y byrddau rhaglen. Eglurodd ei fod yn anfodlon bod cyfansoddiad y byrddau'n cynnwys llawer mwy o swyddogion nag aelodau. Credai'n gryf y dylai aelodau etholedig fod yn flaenllaw yn y gwaith o'r dechrau, a'i fod yn anfodlon bod grym yr aelod unigol yn lleihau, a bod angen ail ystyried rôl y byrddau rhaglen.

Nododd aelod arall bod angen bod yn fwy cynhwysol.

Adroddodd y Prif Weithredwr bod trefniadau llywodraethu cynghorau'n efelychu'r sefyllfa yn y Tŷ Cyffredin. Eglurodd bod y Cyngor wedi ceisio cyflwyno mwy o ddemocratiaeth i'r trefniadau ac wedi ceisio bod yn fwy cynhwysol i gynnwys aelodau meinciau cefn trwy'r gweithdai a'r pwyllgorau craffu. Eglurodd y bwriad i geisio bod yn fwy cynhwysol eto, ond y bydd hyn yn anos o dan drefn Cabinet.

**PENDERFYNWYD**
**(i) Cymeradwyo'r Cynllun Tair Blynedd**
**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Strategol a Gwella i gyflawni unrhyw newidiadau golygyddol angenrheidiol i'r Cynllun cyn ei gyhoeddi**

**16 RHYBUDD O GYNNIG**

(a)(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Ioan Thomas o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Bod y Cyngor yn ail edrych ar y ffioedd i'r cynllun parcio i drigolion ar ôl ystyried ymateb y trigolion i'r ymgynghoriadau sydd eisoes wedi cymryd lle."*

Adroddodd yr aelod ei fod wedi dod â'r cynnig gerbron oherwydd bod nifer o gynlluniau peilot wedi eu gwrthod oherwydd bod y ffioedd yn rhy uchel a'i fod yn awyddus i'r Cyngor ail edrych ar y ffioedd.

(ii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio mewn ymateb i'r cynnig yn nodi bod sawl rheswm pam fod trigolion wedi gwrthod y cynlluniau peilot, yn cynnwys diffyg diddordeb cyffredinol, anniddigrwydd am nad oedd gofod parcio yn cael ei warantu y tu allan i'r tŷ, anfodlonrwydd am nad oedd yr orfodaeth yn weithredol ar ôl 5.00 p.m. ynghyd â chost y tocynnau.

Pe byddai'r Cyngor yn dymuno sefydlu cynlluniau ar gost is, byddai rhaid canfod yr adnoddau ar gyfer y buddsoddiad dechreuol o gyllidebau rheoli a chynnal presennol, ynghyd a chanfod symiau refeniw blynyddol i'w rhedeg. Nodwyd bod costau eraill yn ogystal.

Nododd sawl aelod bod gorfodaeth parcio yn ystod y dydd yn unig yn ddi-werth a bod angen ymestyn yr oriau gorfodaeth. Gofynnwyd i'r pwyllgor roi sylw i'r elfen hon.

**PENDERFYNWYD gofyn i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ystyried y cynllun parcio i breswylwyr yn ei gyfanrwydd.**

(b) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Dylan Edwards o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

*"Bod Cyngor Gwynedd yn mynegi ei gydymdeimlad dwysaf â phobl Japan, yn dilyn y daeargryn a'r swnami yno; yn nodi bod difrod i o leiaf bedwar o bwerdai niwcliar y wlad, yn cynnwys Fukushima Daiichi; yn edmygu dewrder ac arbenigedd y gweithwyr sydd yn ceisio diogelu'r gorsafoedd hynny; yn croesawu penderfyniad yr Ysgrifennydd tros Ynni i ofyn am adroddiad gan y Prif Archwilydd Niwcliar yng Ngwledydd Prydain ar oblygiadau'r digwyddiad yn Japan; bod Cyngor Gwynedd fodd bynnag, yn nodi bod y digwyddiad yn Fukushima yn tanlinellu gwir berygl y diwydiant Niwcliar, a methiant hyd yn oed y dylunnid o'r safon gorau i ddiogelu'r cyhoedd rhag digwyddiadau o'r fath; ac y mae Cyngor Gwynedd, gan hynny, yn galw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ohirio cynlluniau y Llywodraeth i godi gorsafoedd niwcliar newydd yng Ngwledydd Prydain."*

Cyfeiriodd yr aelod at effeithiau erchyll a dinistriol ymbelydredd, gan bwysleisio y bydd yr ymbelydredd fydd yn deilio o'r digwyddiad yn Fukushima Daiichi yn lladd cannoedd o filoedd o bobl yn Siapan a thu draw.

Nododd bod Prif Weinidog Japan wedi datgan na fydd yn codi 14 o orsafoedd niwclear newydd yn y wlad, a'i fod yn awyddus i Brydain ddilyn yr un llwybr.

Pwysleisiodd sawl aelod y dylai Lywodraeth San Steffan fuddsoddi i ddatblygu ynni amgen, a nodwyd y byddai mwy o swyddi'n cael eu creu yn ogystal.

Ategwyd pryder ynglŷn â diogelwch ynni niwclear. Nododd aelod bod cloddio am wraniwm yn digwydd mewn gwledydd tlawd, a'i fod yn creu llygredd a dioddefaint am flynyddoedd lawer. Hefyd roedd diogelu gwastraff ymbelydrol yn creu problemau enfawr i'r dyfodol, ac roedd yn bryderus bod cwmnïau niwclear yn anonest ac yn celu'r gwirionedd. Pwysodd am gefnogaeth i'r cynnig er mwyn diogelu''r cenedlaethau i ddod.

Gofynnodd aelod am gefnogaeth i ohirio penderfyniad ar ail ran y cynnig nes bod canlyniadau'r adroddiad wedi eu cyhoeddi a'r Pwyllgor Craffu Datblygu wedi eu hystyried.

Nododd sawl aelod eu bod yn cytuno y dylid gohirio'r gweithredu er mwyn ystyried holl dystiolaeth a goblygiadau'r adroddiad er mwyn dod i benderfyniad cadarn. Roedd eraill yn galw am weithredu ar frys.

Cynigiwyd, eiliwyd a phasiwyd gwelliant i ohirio penderfyniad ar ail ran y cynnig nes bod canlyniadau adroddiad y Prif Archwilydd Niwclear wedi eu cyhoedd a Phwyllgor Craffu Datblygu wedi cael cyfle i ystyried y canlyniadau.

Pleidleisiwyd ar y cynnig fel ag yr oedd wedi'i ddiwygio

**PENDERFYNWYD**

**(i) Bod Cyngor Gwynedd yn mynegi ei gydymdeimlad dwysaf â phobl Japan, yn dilyn y daeargryn a'r swnami yno; yn nodi bod difrod i o leiaf bedwar o bwerdai niwcliar y wlad, yn cynnwys Fukushima Daiichi; yn edmygu dewrder ac arbenigedd y gweithwyr sydd yn ceisio diogelu'r gorsafoedd hynny; yn croesawu penderfyniad yr Ysgrifennydd tros Ynni i ofyn am adroddiad gan y Prif Archwilydd Niwcliar yng Ngwledydd Prydain ar oblygiadau'r digwyddiad yn Japan**

**(ii) Bod Pwyllgor Craffu Datblygu'n ystyried canlyniadau adroddiad y Prif Archwilydd Niwcliar ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 5.20 p.m.

____________________

**CADEIRYDD**